# SEISYLL ap CLYDOG (fl. 730), brenin cyntaf tiriogaeth unedig Ceredigion ac Ystrad Tywi

**Enw:** Seisyll ap Clydog
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** brenin cyntaf tiriogaeth unedig Ceredigion ac Ystrad Tywi
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

Yn ôl achau cynnar yr oedd yn disgyn o Ceredig ap Cunedda Wledig, sef y gŵr y tybir mai ef oedd rheolwr Brythonig Ceredigion ac y galwyd y diriogaeth honno ar ei enw. Ar y cyntaf rheolai dros Geredigion yn unig ond yn ddiweddarach ychwanegodd y rhannau hynny o hen Ddyfed a elwir yn Cantref Mawr, Cantref Bychan, a Chantref Eginog, neu, gyda'i gilydd, Ystrad Tywi. O'r herwydd rhoddid yn fynych yr enw Seisyllwg i'r tiriogaethau helaethach hyn a grewyd gan Seisyll, sef ' Deheubarth ' cyfnod canol y Canol Oesoedd a feddiannid gan ddisgynyddion Cadell ap Rhodri Mawr. Cadwyd parhad teyrnol y diriogaeth hon trwy briodas Rhodri ag Angharad, chwaer Gwgon ap Meurig, brenin olaf hen linach Seisyllwg (bu farw 871) - yr oedd Gwgon ac Angharad yn or-or-ŵyrion Seisyll.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Seisyll ap Clydog

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3477940

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Pierce, T. J., (1953). SEISYLL ap CLYDOG (fl. 730), brenin cyntaf tiriogaeth unedig Ceredigion ac Ystrad Tywi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SEIS-APC-0730

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government